

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Cyfathrebu

**Polisi Cyfathrebu Cyfryngau**  
**Cymdeithasol**

**Gorffennaf 2015**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cyfathrebu'r Cynulliad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA**

Ar-lein: **[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**  
E-bost: **[cysylltu@cynulliad.cymru](mailto:cysylltu@cynulliad.cymru)**  
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Cyfathrebu

**Polisi Cyfathrebu Cyfryngau**  
**Cymdeithasol**

Gorffennaf 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales





# Cynnwys

<b>01. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>02. Cefndir.....</b>	<b>1</b>
Beth yw cyfryngau cymdeithasol? .....	1
Pam defnyddio cyfryngau cymdeithasol? .....	1
Manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i'r Cynulliad.....	2
<b>03. Gweithredu .....</b>	<b>3</b>
Nodau ac Amcanion.....	3
Risgiau .....	4
Glynu at bolisiau eraill.....	4
Mynediad at sianeli cyfryngau cymdeithasol .....	5
Egwyddorion ar gyfer cyfranogiad.....	5
Creu sianel cyfryngau cymdeithasol.....	5
Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer creu sianeli .....	6
Beth all cynulleidfaoedd eu disgwyl gan gyfryngau cymdeithasol y Cynulliad .....	6
Trydar yn Fyw .....	7
Dwyieithrwydd.....	7
Rhyddid Gwybodaeth.....	7
Defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol.....	8
Manylion cyswllt.....	8

# 01. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r canllawiau ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ehangu ar yr egwyddorion a nodwyd yn strategaeth e-ddemocratiaeth 2010 y Cynulliad, a nododd sut y dylai'r Comisiwn ymgysylltu'n ddigidol â phobl Cymru<sup>1</sup>.

Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at yr holl staff a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n berthnasol i bob gweithgaredd sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol.

Mae'r polisi yn rhoi manylion yr egwyddorion, yr ymddygiad a'r safonau gofynnol a ddisgwylir gan staff wrth iddynt ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ran y Cynulliad. Caiff hyn ei fonitro a bydd torri'r polisi hwn yn gallu arwain at gamau disgyblu.

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol.

## 02. Cefndir

### Beth yw cyfryngau cymdeithasol?

Mae 'cyfryngau cymdeithasol' yn cyfeirio at ystod o dechnolegau cyfathrebu a ddefnyddir ar gyfer rhannu gwybodaeth a barn, yn aml drwy gysylltiadau penodol â phobl neu sefydliadau eraill. Mae'r term yn cynnwys llwyfannau fel Facebook, Twitter, YouTube, Instagram, Flickr a LinkedIn.

Mae'r rhan fwyaf o lwyfannau a gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol wedi bodoli am lai na 10 mlynedd, ond maent yn gynyddol boblogaidd, yn enwedig wrth i'r defnydd o ddyfeisiau symudol fel cyfrifiaduron llechen a ffonau clyfar gynyddu cysylltedd.

Mae seneddau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn aml yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i ddinasyddion am faterion penodol. Yn amlach na pheidio, mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel ffyrdd i ddarlledu gwybodaeth yn hytrach nag ar gyfer annog deialog neu drafodaeth. Mae sôn bod cyn lleied â saith y cant o wleidyddion y DU wirioneddol yn cymryd rhan mewn sgysiau ar gyfryngau cymdeithasol, oherwydd bod pryder am y risgiau. Mae yna hefyd oblygiadau o ran adnoddau ar gyfer rhyngweithio'n gyson.

Fodd bynnag, fe ellir ac fe ddylid defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ehangu cyfranogiad gwleidyddol drwy helpu'r cyhoedd i gyfathrebu gyda'u cynrychiolwyr ac i ofyn cwestiynau yn uniongyrchol fel rhan o broses ymchwiliad.

Mae cyfryngau cymdeithasol hefyd yn unigryw o ran eu gallu i gysylltu pobl â sefydliadau ar unwaith a'u galluogi i barhau gyda'r drafodaeth.

### Pam defnyddio cyfryngau cymdeithasol?

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi esblygu'n sylweddol ers 2010. Bellach, mae angen rhoi sylw ac ystyriaeth arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithiol fel rhan o strategaeth ymgysylltu'r Cynulliad.

---

<sup>1</sup>Strategaeth e-ddemocratiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[http://www.assembly.wales/assembly%20commission%20documents/ac%202010\(6\)%20paper%205%20annex%20a%20-%20e-democracy%20strategy%20\(pdf,%20224kb\)-30092010-198788/ac\\_2010\\_6\\_\\_paper\\_5\\_annex\\_a-cymraeg.pdf](http://www.assembly.wales/assembly%20commission%20documents/ac%202010(6)%20paper%205%20annex%20a%20-%20e-democracy%20strategy%20(pdf,%20224kb)-30092010-198788/ac_2010_6__paper_5_annex_a-cymraeg.pdf)

Mae cyfryngau cymdeithasol yn gyfle i'r Cynulliad gynyddu cyfranogiad yng ngwaith y pwyllgorau a chodi proffil Aelodau'r Cynulliad am gost sylweddol is na dulliau marchnata traddodiadol.

Gall defnyddio cyfryngau cymdeithasol wella'r gwaith o graffu a deddfu drwy ehangu'r broses ymgynghori ac ymgysylltu cyffredinol a hefyd yn cynyddu cyrhaeddiad negeseuon corfforaethol. Gellir defnyddio cyfryngau cymdeithasol i annog cyfranogiad gan y rhai nad ydynt fel arfer yn rhyngweithio â'r Cynulliad, ac mae modd cynnal sawl sgwrs ar y cyd ar-lein.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn ychwanegiad cyffrous, pwerus a rhyngweithiol i'n gweithgareddau ar-lein. Os na wnawn ymgysylltu â defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol, rydym mewn perygl o beidio â chymryd rhan mewn sgysiau pwysig a allai lunio enw da'r sefydliad.

Ar hyn o bryd, caiff sianelau cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio gan y Cynulliad ar gyfer: cyhoeddiadau; lincs i eitemau newyddion; ymgynghoriadau; ymholiadau; hyrwyddo cynnwys amlgyfrwng; gwybodaeth am y Llywydd; a, newyddion cyffredinol am y sefydliad. Mae rhestr o sianeli cyfryngau cymdeithasol presennol y Cynulliad yma:

<http://www.cynulliad.cymru/cy/help/Pages/Social-media.aspx>

Bwriad cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol yw ategu gweithgarwch ymgysylltu arall, ac mae'r un mor atebol i ddeddfau perthnasol fel y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

### **Manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i'r Cynulliad**

- Ymgysylltu â chynulleidfaedd ar y llwyfannau y maent eisoes yn eu defnyddio;
- Treiddio a 'chyrhaeddiad' pellach;
- Bodloni disgwyliaid ein cynulleidfa fel sefydliad modern;
- Galluogi'r Cynulliad i gyfathrebu'n hyblyg;
- Monitro sgysiau a chymryd rhan mewn trafodaethau ar-lein;
- Hyrwyddo gwaith y Cynulliad;
- Gyrru pobl at y brif wefan a llwyfannau eraill y Cynulliad;
- Cynyddu cyfranogiad ym musnes y Cynulliad (ymchwiliadau pwyllgorau, er enghraifft);
- Cynyddu cyflymder rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a lleihau'r ddibyniaeth ar y diffyg democrataidd yn y cyfryngau traddodiadol;
- Gwella cyfathrebu wedi'i dargedu ar gyfer mwy o ymgysylltu; a
- Gwella cost-effeithiolrwydd hirdymor cyfathrebu.



## 03. Gweithredu

### Nodau ac Amcanion

Yn unol â'r ymrwymïadau a wnaed yn Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2011 - 2016, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ategu ac ychwanegu at yr ymdrechion i ymgysylltu â phobl Cymru.

#### Diben y gwaith ymgysylltu hwn yw:

- Hyrwyddo gwaith y Cynulliad;
- Annog mwy o gyfranogiad yng ngwaith y Cynulliad; a
- Codi proffil Aelodau'r Cynulliad.

#### Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, bydd y Cynulliad yn:

- Datblygu sianelau cyfryngau cymdeithasol i roi llais unigryw a hyderus i'r Cynulliad ar-lein;
- Darparu mynediad fesul munud at waith y Cynulliad;
- Defnyddio offer sy'n annog mwy o ymgysylltu a dod o hyd i leisiau newydd i gyfrannu at fusnes y Cynulliad;
- Darparu arloesedd ysbrydoledig sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, ond sydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i gysylltu â nodau strategol Comisiwn y Cynulliad; a
- Darparu canolfan ragoriaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth a staff Comisiwn y Cynulliad, sy'n cefnogi ac yn datblygu defnydd y Cynulliad o gyfryngau cymdeithasol a'r rheolaeth ohono.

#### Er mwyn cyflawni ei nodau, mae'r Cynulliad yn cydnabod bod angen:

- Gwrando ar sgysiau - pwy sy'n siarad am y Cynulliad a beth maent yn dweud;
- Creu a chyhoeddi cynnwys diddorol;
- Cymryd rhan mewn sgysiau a'u hwyluso;
- Dadansoddi effeithiolrwydd cynnwys a strategaethau cynnwys;
- Gosod nodau ymgysylltu â metrigau a meincnodau diffiniedig;
- Monitro a mesur canlyniadau i werthuso sianeli yn eu cyfanrwydd yn rheolaidd;
- Datblygu strategaethau ar gyfer sianeli sy'n nodi pa wybodaeth (ac ym mha arddull) y dylid ei rhoi ar lwyfannau penodol; a
- Chreu cynllun tactegol ar gyfer gweithredu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol newydd.



## Risgiau

Er mwyn cyflawni'r amcanion a ddisgrifir uchod, bydd y Cynulliad yn rhoi mesurau cadarn ar waith i osgoi risgiau i'w enw da wrth ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Er mai'r tîm Cyfathrebu sy'n gweithredu'r prif gyfrifon corfforaethol ar Twitter, Facebook, Flickr, YouTube a LinkedIn, gall gwahanol aelodau o staff ledled y sefydliad ddefnyddio'r sianelau ar wahanol adegau.

Y prif risg i'r Cynulliad o ran ei ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol yw'r risg bod cynnwys amhriodol neu annoeth yn cael ei bostio. Er y gellir dileu cynnwys ar ôl ei bostio, mae'n ddigon posibl a thebygol y bydd miloedd o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol wedi gweld y cynnwys yn y cyfnod rhwng ei bostio a'i ddileu. Risg arall yw bod staff yn postio cynnwys sydd wedi'i ysgrifennu'n wael, a bod hynny'n adlewyrchu'n wael ar y sefydliad.

I liniaru'r risgiau hyn, bydd Rheolwr y Cyfryngau Digidol yn gyfrifol am oruchwylio ein presenoldeb ar-lein a darparu cyngor, cymorth a hyfforddiant i gydweithwyr. Bydd yr aelod hwn o staff yn gyfrifol am gynnal polisi cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad a'r dogfennau ategol, yn ogystal â datblygu strategaethau wrth i lwyfannau, technoleg a thueddiadau amlwg ddod i'r golwg.

Bydd Rheolwr y Cyfryngau Digidol yn gwarchod arloesi a sicrhau ein bod yn gwerthuso pob llwyfan a phrosiect newydd yn ofalus. Dylid dirprwyo'r dasg o bostio cynnwys i arbenigwyr pwnc mewn gwahanol adrannau. Bydd Rheolwr y Cyfryngau Digidol yn darparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i staff y Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

## Glynu at bolisiau eraill

Rhaid defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol yn unol â safonau proffesiynol presennol, canllawiau adrannol, codau ymddygiad a rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i God Ymddygiad Staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>2</sup>. Rhaid i'r defnydd hefyd gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol Comisiwn y Cynulliad.

Dylai gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol hefyd sicrhau y glynir at agenda cynhwysiant ac amrywiaeth y Cynulliad. Dylid annog staff i sicrhau bod cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n gwneud y mwyaf o gynhwysiant ac yn caniatáu i leisiau newydd gyfrannu at waith y Cynulliad.

- **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2011-16**
- **Cod Ymddygiad Staff**
- **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**
- **Cynllun Ieithoedd Swyddogol**
- **Cynllun Cydraddoldeb 2012-16**

---

<sup>2</sup> [http://www.assembly.wales/NAFW%20Documents/code\\_of\\_conduct.pdf%20-%2009012009/code\\_of\\_conduct-Cymraeg.pdf](http://www.assembly.wales/NAFW%20Documents/code_of_conduct.pdf%20-%2009012009/code_of_conduct-Cymraeg.pdf)

## Dwyieithrwydd

Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad yn rhoi cyfrifoldeb ar staff i gyfathrebu'n ddwyieithog â chynulleidfaoedd allanol. Dylai fersiynau Cymraeg a Saesneg o sianeli a'u cynnwys gyd-fodoli yn gyfartal, er yr anogir staff i bostio cynnwys a allai fod yn fwy priodol i'r cynulleidfaoedd yn y gwahanol ieithoedd. Er enghraifft, efallai na fyddai'n briodol postio linc ar y sianel Saesneg i fideo o Aelod Cynulliad ar raglen deledu Gymraeg.

Dylid cyhoeddi cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei bostio neu ei drydar, a gynhyrchwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol ar yr un pryd. Gellir gwneud hynny drwy drefnu'r cynnwys ar y llwyfan yn ôl cyngor Rheolwr y Cyfryngau Digidol.

Dylid darparu ymatebion yn yr un iaith â'r sylw gwreiddiol. Ni ddylai cyflymder yr ymateb fod yn wahanol yn ôl iaith.

## Mynediad at sianeli cyfryngau cymdeithasol

Er mwyn cyhoeddi cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, bydd angen i staff gael mynediad gweinyddol at sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad. Dim ond staff penodol sy'n cael mynediad, yn seiliedig ar eu swydd ac ar anghenion busnes.

## Egwyddorion ar gyfer cyfranogiad

Mae rhai egwyddorion cyffredin yn cael eu rhannu ar draws pob math o gyfryngau cymdeithasol. Rhaid i staff weithredu o fewn Cod Ymddygiad Staff y Cynulliad wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei phostio gan y Cynulliad fod:

- Yn gredadwy, yn gywir, yn deg, yn drylwyr ac yn dryloyw;
- Byddwch yn gyson - gan annog beirniadaeth ac ystyriaeth adeiladol. Byddwch yn gyfeillgar, yn onest ac yn broffesiynol bob amser;
- Byddwch yn ymatebol - pan fydd gwybodaeth ddiddorol yn cael ei phostio, rhannwch lle bo hynny'n briodol; ac
- Integreiddiwch - lle bynnag y bo'n bosibl, aliniwch gyfraniadau ar-lein gyda mathau eraill o gyfathrebu.

## Creu sianel cyfryngau cymdeithasol

Pan fydd tîm / pwyllgor / adran yn teimlo bod ganddynt achos dros gael sianel cyfryngau cymdeithasol penodedig i hyrwyddo eu cynnwys, dylid anfon cais at Reolwr y Cyfryngau Digidol. Ar ôl cymeradwyo'r cais, bydd yn ofynnol i'r tîm arwyddo Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn amlinellu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran rheoli'r cyfrif.

Dylai'r cais cyntaf:

- Ddangos y cyd-destun strategol ac amcanion y gweithgaredd cyfathrebu a fwriadwyd;
- Pennu ffactorau llwyddiant critigol (gan nodi beth sy'n mynd i newid neu gael ei gyflawni) a manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol;
- Nodwch y gynulleidfa / cynulleidfaoedd ar gyfer y gweithgaredd a fwriedir;
- Ystyriaeth o opsiynau eraill, gan ddangos bod gwerth am arian wedi cael ei ystyried;

- Amlinellu gweithgareddau ategol eraill i gael eu defnyddio o amgylch y defnydd o gyfryngau cymdeithasol (megis e-bost, rhyngweithio mewn person neu weithgaredd allgymorth eraill);
- Amlinellu sut y bydd gofynion o ran adnoddau yn cael eu cyflawni; ac
- Amlinellu'r mesurau gwerthuso fydd yn cael eu rhoi ar waith i fesur gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol a'r llwyddiant (gallai'r rhain newid dros amser ac fe fyddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cyfryngau Digidol).

### **Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer creu sianeli**

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi bod timau sy'n rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cadw at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth; a
- Mynychu hyfforddiant a darllen canllawiau ar gais Rheolwr y Cyfryngau Digidol.

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth hefyd yn nodi bod Rheolwr y Cyfryngau Digidol yn gyfrifol am:

- Gymeradwyo sianeli newydd; awdurdodi a gweithredu sianelau, gan gynnwys y cynllun a'r logo; a chadw perchnogaeth o'r holl gyfrifon (fel y nodwyd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth);
- Rheoli rhoi cyfrifon i staff ar gyfer cyfrannu at gyfryngau cymdeithasol ar ran y Cynulliad; a
- Monitro cyfrifon i sicrhau rheoli ansawdd, a chynghori adrannau ac awgrymu hyfforddiant fel y bo'n briodol.

### **Beth all cynulleidfaedd eu disgwyl gan gyfryngau cymdeithasol y Cynulliad**

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi Polisi Defnydd Derbyniol o Gyfryngau Cymdeithasol<sup>3</sup> sy'n nodi telerau ac amodau defnydd, gan gynnwys:

- 'Dilyn' neu 'hoffi': Pan fydd aelod o'r cyhoedd, sefydliad, corff gwleidyddol neu'r cyfryngau yn dilyn unrhyw un o sianelau'r Cynulliad, efallai y byddwn yn eu dilyn yn ôl, neu'n 'ail-drydar' neu'n rhoi 'ffefryn' ar gyfer un o'u negeseuon. Fodd bynnag, nid yw hyn yn awgrymu cefnogaeth na chytundeb;
- Argaeledd: Dylid monitro cyfryngau cymdeithasol a'u diweddarau rhwng yr oriau swyddfa 09.00 a 17.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Efallai na fydd negeseuon yn derbyn cydnabyddiaeth tan oriau swyddfa arferol;
- Ymatebion: Nid yw hi'n bosibl nac yn briodol i ymateb yn unigol i'r holl negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol;
- Rhannu gwybodaeth: Dylid darllen pob neges cyfryngau cymdeithasol a rhoi gwybod i gydweithwyr perthnasol am unrhyw themâu neu awgrymiadau defnyddiol sy'n dod i'r amlwg. Os yw staff yn ansicr am ateb negeseuon, dylent ofyn i Reolwr y Cyfryngau Digidol; ac
- Amhleidioldeb: Ni all ac ni ddylai'r Cynulliad ymateb i faterion sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth bleidiol nac ateb cwestiynau sy'n torri rheolau Cod y Gwasanaeth Sifil<sup>4</sup>.

<sup>3</sup> [http://www.assembly.wales/cy/help/Pages/social\\_media\\_policy.aspx](http://www.assembly.wales/cy/help/Pages/social_media_policy.aspx)

<sup>4</sup> <http://www.civilservice.gov.uk/about/values>

## Trydar yn Fyw

Caiff trydar yn fyw ei ddiffinio fel postio cynnwys ar Twitter yn rheolaidd yn ystod digwyddiad. Mae hyn yn galluogi'r Cynulliad i gysylltu â chynulleidfaoedd ar Twitter am gyfnod parhaus o amser, am fod cyfres o negeseuon trydar penodol yn rhoi ffocws a chyd-destun i ddigwyddiad, cyfarfod pwyllgor neu brofiad arall wrth iddo ddatblygu.

Ar hyn o bryd, **nid** yw trydar yn fyw o gyfarfodydd y pwyllgor yn arfer sydd wedi cael ei werthuso ddigon i gael ei argymhell ar gyfer defnydd cyffredinol. Felly, rhaid i unrhyw bwyllgor sydd am drydar yn fyw nodi bod yn **rhaid** cael caniatâd y Clerc, Cadeirydd y Pwyllgor, Rheolwr y Cyfryngau Digidol a'r Pennaeth Cyfathrebu.

### Canllawiau trydar yn fyw

- Cyn dechrau trydar yn fyw o gyfarfod pwyllgor, dylai'r Clerc gadarnhau gyda Rheolwr y Cyfryngau Digidol bod y Cadeirydd a holl aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r peth ac wedi cytuno iddo;
- Yn yr un modd, er nad oes angen caniatâd y tystion sy'n rhoi tystiolaeth, dylai'r Clerc sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw weithgaredd cyfryngau cymdeithasol;
- Dylid sicrhau bod nifer digonol o staff yn bresennol yn ystod y cyfarfod i roi'r cymorth clericio angenrheidiol i'r Pwyllgor. Er enghraifft, dylai'r Clerc glercio'r cyfarfod a dylai'r Dirprwy Glerc ysgrifennu'r negeseuon trydar. Os nad yw'r trefniant hwn yn bosibl, dylid gofyn am adnoddau ychwanegol;
- Rhaid trydar yn fyw gan ddefnyddio gliniadur neu gyfrifiadur llechen, gyda'r meddalwedd priodol wedi'i osod arno. Dylid gwirio'r trefniant arfaethedig gyda'r tîm Cyfathrebu cyn y cyfarfod;
- Dylid trydar cwestiynau gydag atebion a dylai Clercod fod yn ymwybodol y gall dyfyniadau rhannol fod yn gamarweiniol;
- Argymhellir, lle bo modd, bod Clercod yn trydar ymateb cyfan y tystion. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n well trydar y cwestiwn ond ddim yr ateb, yn hytrach na risgio golygu neu gamddehongli ateb y tyst;
- Gellir trydar am gamau gweithredu;
- Dylai pob neges fod yn gwbl ddiuedd o ran gwleidyddiaeth y pleidiau gan gadw at Adran 5 y Cod Ymddygiad Staff (sy'n ymwneud â dwyn anfri ar y Cynulliad);
- Ni ddylid trydar unrhyw sylwadau nag ymatebion a wnaed o'r ochrau; a
- Rhaid gwerthuso pob sesiwn. A oedd modd gwella rhai negeseuon trydar? A oedd gwallau sillafu? A oedd y naratif yn amlwg? Os felly, gwnewch nodiadau am y meysydd i'w datblygu a'u gwella yn y dyfodol.

### Rhyddid Gwybodaeth

Gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, efallai y bydd y cyfyngiad ar nifer y cymeriadau ar rai llwyfannau yn effeithio ar allu'r Cynulliad i ymateb yn llawn i gais. Nid oes yn rhaid i gais am wybodaeth sôn yn benodol am 'ryddid gwybodaeth'. Felly, ni ddylid ymateb i gwestiynau cyffredinol ar unwaith, heb yn gyntaf ystyried y potensial o ddatgelu gwybodaeth benodol.

Os yw'r wybodaeth eisoes wedi'i chyhoeddi, rhoddir linc i wefan y Cynulliad. Os yw'r ymateb yn un hir, gellir rhoi linc i log datgelu'r Cynulliad yn hytrach.

Er mwyn i'r Cynulliad ystyried cais, bydd angen i'r unigolyn roi ei enw go iawn a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (mae hyn yn cynnwys cyfeiriad e-bost). Os yw'r cais wedi cael ei bostio ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, yna cyn belled â bod y safle hwnnw yn cynnig modd i'r awdurdod i ymateb, fel hyperlinc at gyfeiriad e-bost yr ymholydd neu fotwm 'ateb', yna bydd hynny'n cyflawni'r gofyniad i ddarparu cyfeiriad dilys.

Os yw cais yn cael ei wneud ar Twitter, gall y Cynulliad ond ystyried ceisiadau a wneir yn uniongyrchol drwy '@mensch' neu neges uniongyrchol.

## **Defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol**

Pan fydd staff yn defnyddio eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol y tu allan i'r gwaith, dylid eu hatgoffa, pan fydd achosion o dorri'r polisi hwn neu God Ymddygiad Staff y Cynulliad, y gellir cymryd camau yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Cynulliad.

Mae'r Cynulliad yn cadw'r hawl i gyfyngu neu atal mynediad at safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn adeiladau'r Cynulliad os ystyrir bod defnydd personol yn ormodol.

Gallai camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mewn rhai amgylchiadau, fod yn drosedd gyfreithiol neu fe allai arwain at atebolrwydd cyfreithiol yn erbyn yr unigolyn neu'r sefydliad.

Yn benodol, byddai postio neu anfon linc ymlaen sy'n cynnwys unrhyw fath o'r deunydd isod gyfystyr â chamymddwyn difrifol:

- Deunydd pornograffig;
- Datganiad ffug neu ddifenwol am unrhyw berson neu sefydliad;
- Deunydd sy'n sarhaus, anweddus, difriol, neu a allai achosi embaras i'r Cynulliad;
- Gwybodaeth gyfrinachol am y Cynulliad, ei staff neu Aelodau'r Cynulliad;
- Unrhyw ddatganiad arall sy'n debygol o arwain at atebolrwydd; a
- Deunydd sy'n torri hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol neu sy'n ymosod ar breifatrwydd unrhyw berson.

Pan fydd tystiolaeth o gamddefnydd yn dod i'r amlwg, efallai y bydd y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad manylach, gan gynnwys archwilio a datgelu cofnodion monitro, ac enwebu person i ymgymryd ag ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw dystion neu reolwyr fel rhan o'r ymchwiliad. Os bydd angen, gallai gwybodaeth o'r fath gael ei rhoi i'r Heddlu mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol.

Os bydd aelod o staff yn sylwi ar enghraifft o'r polisi hwn yn cael ei dorri, dylai roi gwybod i'r tîm Cyfathrebu.

## **Manylion cyswllt**

### **Dean George**

Rheolwr y Cyfryngau Cymdeithasol

**dean.george@cynulliad.cymru**